Llywodraeth Cymru
Welsh Government

MEETING

Welsh Language Partnership Council meeting: 8 July 2021

Minutes of a meeting of the Welsh Language Partnership Council on 8 July 2021.

First published: 14 April 2022

Last updated: 14 April 2022

This document was downloaded from GOV.WALES and may not be the latest version.
Go to **https://gov.wales/welsh-language-partnership-council-meeting-8-july-2021-html** for the latest version.
Get **information on copyright**.

Contents

Eitem 1

Eitem 2

Yn bresennol	Rôl
Jeremy Miles AS	Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Rhodri Llwyd Morgan	Aelod, Cyngor Partneriaeth y Gymraeg
Rhian Huws Williams	Aelod, Cyngor Partneriaeth y Gymraeg
Simon Brooks	Aelod, Cyngor Partneriaeth y Gymraeg
Angharad Mai Roberts	Aelod, Cyngor Partneriaeth y Gymraeg
Rosemary Jones	Aelod, Cyngor Partneriaeth y Gymraeg
Dyfed Edwards	Aelod, Cyngor Partneriaeth y Gymraeg
Lowri Morgans	Aelod, Cyngor Partneriaeth y Gymraeg
Meleri Davies	Aelod, Cyngor Partneriaeth y Gymraeg
Rhys Jones	Aelod, Cyngor Partneriaeth y Gymraeg

This document was downloaded from GOV.WALES and may not be the latest version.
Go to **https://gov.wales/welsh-language-partnership-council-meeting-8-july-2021-html** for the latest version.
Get **information on copyright**.

Yn bresennol	Rôl
Andrew White (Tan 14:00)	Aelod, Cyngor Partneriaeth y Gymraeg
Bethan Webb	Is-Adran y Gymraeg, Llywodraeth Cymru
(Ysgrifenyddiaeth)	Is-Adran y Gymraeg, Llywodraeth Cymru
(Ysgrifenyddiaeth)	Is-Adran y Gymraeg, Llywodraeth Cymru
(Ysgrifenyddiaeth)	Is-Adran y Gymraeg, Llywodraeth Cymru
Aelodau staff Is-adran y Gymraeg (Arsylwi'n unig)	Is-Adran y Gymraeg, Llywodraeth Cymru

Ymddiheuriadau

Ymddiheuriadau	Rôl
Enlli Thomas	Aelod, Cyngor Partneriaeth y Gymraeg
Dafydd Hughes	Aelod, Cyngor Partneriaeth y Gymraeg

This document was downloaded from GOV.WALES and may not be the latest version.
Go to **https://gov.wales/welsh-language-partnership-council-meeting-8-july-2021-html** for the latest version.
Get **information on copyright**.

Eitem 1

Gair o groeso gan y Gweinidog

Estynnwyd croeso cynnes i bawb gan Jeremy Miles, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, i rith-gyfarfod Cyngor Partneriaeth y Gymraeg – ei gyfarfod cyntaf.

Nododd y Gweinidog ei bod hi'n fraint cael bod yn Weinidog y Gymraeg ac Addysg gan ychwanegu ei fod yn edrych ymlaen at gael cydweithio â'r aelodau.

Amlinellodd y Gweinidog ei flaenoriaethau ar gyfer y Llywodraeth hon:

1. Cefnogi defnydd o'r Gymraeg ym mhob cyd-destun ac ym mhob rhan o Gymru

Nododd ei fod am wneud yn siŵr bod yr iaith yn gynhwysol a'i fod am weld pobl yn cael eu hannog, waeth faint o Gymraeg sydd ganddyn nhw, i'w defnyddio a'i dysgu fel bod pawb ar yr un llwybr. Bydd angen sicrhau hefyd bod gan bawb fynediad at gyfleoedd i ddysgu Cymraeg, yn y system addysg ac yn ehangach.

Bydd gofyn i bob ymyrraeth gyfrannu at y gwaith o gefnogi pobl i ddefnyddio Cymraeg yn amlach – pa un a yw'r ymyrraeth honno gan y Llywodraeth yn uniongyrchol, gan ein partneriaid, gan y rheiny byddwn yn eu hariannu, neu'n gamau o ran rheoleiddio neu gynllunio polisi.

2. Addysg Gymraeg i blant / Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA / WESP)

Nododd bod rhaid gwneud yn siŵr bod pob plentyn sydd am dderbyn ei addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn gallu cael mynediad at yr addysg honno. O ran y CSCA, soniodd mai'r brif her yw bod â gweithlu digonol a all addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd gofyn rhoi sylw manwl i'r cynllun recriwtio deng mlynedd sy'n cael ei ddrafftio i gyd-fynd â'r cylch CSCA nesaf.

This document was downloaded from GOV.WALES and may not be the latest version.
Go to **https://gov.wales/welsh-language-partnership-council-meeting-8-july-2021-html** for the latest version.
Get **information on copyright**.

Yr elfen ddaearyddol

Nododd y bydd gofyn ystyried y sefyllfa ddaearyddol yn ofalus er mwyn cyrraedd y miliwn: ail gartrefi / yr economi, yn enwedig yn y cadarnleoedd.

Eitem 2

Cyflwyniadau gan yr Aelodau

Cyflwynodd yr aelodau eu hunain i'r Gweinidog fesul un – gan sôn am eu cefndiroedd a'r hyn y maent yn gobeithio ei gyfrannu drwy gyfrwng y Cyngor Partneriaeth.

Diolchodd y Gweinidog i'r aelodau am eu cyflwyniadau gan ddatgan ei fod yn edrych ymlaen at elwa ar eu harbenigedd wrth i bawb gydweithio i ddyblu defnydd o'r Gymraeg a chyrraedd y miliwn.

This document was downloaded from GOV.WALES and may not be the latest version.
Go to **https://gov.wales/welsh-language-partnership-council-meeting-8-july-2021-html** for the latest version.
Get **information on copyright**.

About this document

This document is a copy of the web page **Welsh Language Partnership Council meeting: 8 July 2021** downloaded.

Go to **https://gov.wales/welsh-language-partnership-council-meeting-8-july-2021-html** for the latest version.

This document may not be fully accessible, for more information refer to our **accessibility statement**.

Get **information on copyright**.

This document was downloaded from GOV.WALES and may not be the latest version.
Go to **https://gov.wales/welsh-language-partnership-council-meeting-8-july-2021-html** for the latest version.
Get **information on copyright**.